

Prisiau Cig Eidion o Gymru

Hydref 2014

Cyflwyniad

Mae prisiau wrth gât y fferm ym Mhrydain wedi disgyn yn sylweddol drwy gydol 2014. Mae Hybu Cig Cymru (HCC) ac undebau'r ffermwyr wedi awgrymu amrywiaeth o resymau dros y gostyngiad, gan gynnwys cynnydd yng nghyflenwad y DU wartheg wedi'i pesgi, cynnydd mewn mewnforion a llai o alw gan gwsmeriaid.

Mae HCC yn adolygu dyfodol y diwydiant cig eidion yng Nghymru i ymateb i'r gostyngiad mewn prisiau cig eidion a'r pryderon cysylltiedig yn y gymuned ffermio.

Mae'r nodyn ymchwil hwn yn rhoi trosolwg o'r newidiadau mewn prisiau cig eidion, awgrymu'r achosion dros y gostyngiad a'r strategaethau lliniarol arfaethedig.

Y sector cig coch yng Nghymru

Mae'r sector cig coch yn ei gyfanrwydd (gan gynnwys cynhyrchion cig eidion, cig oen a phorc) yn cyfrannu tua 40% at allbwn amaethyddol Cymru.¹

Amcangyfrifir ei fod yn werth tua £1 biliwn y flwyddyn i economi Cymru (gan gynnwys y sectorau


ffermio, prosesu a manwerthu).² Mae allforion cig coch Cymru yn werth tua £200 miliwn y flwyddyn.³

Yn 2012, cyfanswm y pris ar gyfer gwartheg wedi'u pesgi yng Nghymru oedd £248 miliwn, a oedd yn cyfrif am 19% o allbwn amaethyddol Cymru y flwyddyn honno.⁴

Gostyngiad mewn prisiau cig eidion - ystadegau

Yn ystod 2014, ar draws Prydain, mae pris pwysau marw bustach, ar gyfartaledd, wedi disgyn yn sylweddol (Ffigur 1). Roedd y pris ar ei isaf ym mis Mehefin (wythnos yn dod i ben 30 Mehefin) ar 326.9c/kg a oedd 75c/kg yn is nag yr oedd yr un wythnos yn 2013. Er bod prisiau wedi codi ers mis Gorffennaf, maent yn dal i fod yn sylweddol is nag yn 2013 ar 346.5c/kg (wythnos yn dod i ben 7 Medi); 48c yn is na'r mis cyfatebol yn 2013.⁵

Mae gostyngiad mewn prisiau wrth gât y fferm yn 2014 yng Nghymru wedi'i gofnodi i fod yn cyfateb i golled o hyd at £300 yr anifail o'i gymharu â 2013.⁶



Ffigur 1. Prisiau cyfartalog wythnosol y farchnad Brydeinig am fustych. Ffynhonnell: HCC⁷

² HCC, [Dyfodol Cynaliadwy Map Ffurdd Cig Coch Cymru](#), Gorffennaf 2011 [fel ar 22 Awst 2014]

³ HCC, [HCC takes Welsh Lamb and Welsh Beef to the world](#), 3 Mai 2013 [fel ar 3 Medi 2014]

⁴ HCC, [Llyfr Bach o Ffeithiau am Gig Casgliad o Ystadegau'r Diwydiant Cig Coch a Da Byw yng Nghymru](#), 2014 [fel ar 8 Medi 2014]

⁵ [Gwefan HCC](#), Prisiau Wythnosol Gwartheg Pwysau Marw Prydeinig [fel ar 22 Awst 2014]

⁶ HCC, [Chance to have your say about the state of the beef industry](#), 15 Gorffennaf 2014 [fel ar 27 Awst 2014]

¹ HCC, [Llyfr Bach o Ffeithiau am Gig Casgliad o Ystadegau'r Diwydiant Cig Coch a Da Byw yng Nghymru](#), 2014 [fel ar 8 Medi 2014]



Mynegodd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) bryder wrth ymateb i'r gostyngiadau hyn bod ffermwyr yn colli hyder yn y diwydiant a dywedodd 'heb hyder, bydd yr ailfuddsoddi sydd ei angen i sicrhau hyfywedd hirdymor y diwydiant yn cael ei golli'.⁸

Adolygiad Hybu Cig Cymru

Ar 12 Mai 2014, cyhoeddodd Hybu Cig Cymru (HCC) - y corff a arweinir gan y diwydiant sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru - adolygiad o ddyfodol y diwydiant cig eidion yng Nghymru ar ôl i'r gymuned ffermio yng Nghymru fynegi pryderon ynghylch y gostyngiad diweddar mewn prisiau..

Dyweddodd Gwyn Howells, Prif Weithredwr HCC, bod yr adolygiad yn ystyried yr holl opsiynau er mwyn sicrhau dyfodol hyfyw, cynaliadwy a hirdymor i fuches eidion Cymru.⁹ Disgwylir cyhoeddi'r adolygiad yn ystod tymor yr hydref 2014.¹⁰

Achosion posibl y gostyngiad mewn prisiau cig eidion

Yn ôl HCC, gostyngodd y prisiau oherwydd cynnydd yng nghyflenwad y DU o wartheg wedi'u pesgi a chynnydd mewn mewnforion, ynghyd â gostyngiad mewn galw gan gwsmeriaid.¹¹

Cynnydd yng nghyflenwad y DU o wartheg

Yn ystod chwarter cyntaf 2014, roedd cynnydd o 1% yn y nifer o wartheg wedi'u pesgi a aeth drwy ladd-dai'r DU (neu 6,000 o wartheg) o'i gymharu â 2013.¹²

⁷ **Gwefan HCC**, Prisiau Wythnosol Gwartheg Pwysau Marw Prydeinig [fel ar 22 Awst 2014]

⁸ FUW, **FUW welcomes HCC beef sector review**, 13 Mai 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

⁹ HCC, **HCC to review beef sector as prices continue to fall**, 12 Mai 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

¹⁰ HCC, **Beef review interim findings to spark debate at Royal Welsh Show**, 21 Gorffennaf 2014 [fel ar 3 Medi 2014]

¹¹ HCC, **High supply and dip in demand hit beef prices**, 24 Ebrill 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

¹² HCC, **High supply and dip in demand hit beef prices**, 24 Ebrill 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

Bu cynnydd arbennig mewn teirw a bustych.¹³ Oherwydd bod prisiau'n gostwng cyn Nadolig 2013, mae Eblex yn awgrymu y gallai cynhyrchwyr fod wedi dal anifeiliaid yn ôl tan 2014 a bod y llifddorau wedi agor wedyn.¹⁴

Mae Eblex yn rhagweld gostyngiad yn y cyflenwad o wartheg wedi'u pesgi wrth i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) gofnodi llai o wartheg iau yn y maes a gostyngiad yn y boblogaeth fridio.¹⁵

Cynnydd o ran mewnforio cig eidion

Dengys ffigurau HCC bod cyfanswm y cig eidion a gaiff ei fewnforio i'r DU, yn arbennig o lwerddon a'r Iseldiroedd, wedi cynyddu ers 2013-14.¹⁶ Yn ystod deufis cyntaf 2014, cafodd 2,500 yn ychwanegol o dunelli o gig eidion eu mewnforio o lwerddon i'r DU o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2013.¹⁷

Dyweddodd Dai Davies, Cadeirydd HCC:

Throughput at Irish export abattoirs is up by 13.6 per cent so far in 2014 [May] compared with the same period in 2013, meaning that more than 50,000 additional prime cattle have entered the food chain... At the same time Irish producers are receiving the equivalent of around 310p per kg for their cattle... This has led to an increase in imports of Irish beef into the UK, undercutting the price paid to farmers in Britain.¹⁸

Dyweddodd yr NFU bod y sgandal cig ceffyl yn 2013 wedi arwain manwerthwyr, proseswyr a gweithgynhyrchwyr i chwilio am gig eidion yn fwy lleol ac aeth swm y mewnforion o lwerddon, yr Iseldiroedd, yr Almaen a Gwlad Pwyl i lawr rhwng mis

¹³ NFU **Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru a Lloegr: Beef price update**, 29 Mai 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

¹⁴ Eblex, **The outlook for the UK beef market**, Gorffennaf 2014 [fel ar 8 Medi 2014]

¹⁵ Eblex, **Cattle and Sheep Weekly**, 12 Mai 2014 [fel ar 8 Medi 2014]

¹⁶ HCC, **High supply and dip in demand hit beef prices**, 24 Ebrill 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

¹⁷ HCC, **HCC to review beef sector as prices continue to fall**, 12 Mai 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

¹⁸ FUW, **FUW welcomes HCC beef sector review**, 13 Mai 2014 [fel ar 22 Awst 2014]



Mawrth 2012 a mis Mawrth 2013.¹⁹ Felly, er bod cynnydd mewn cynhyrchu cig eidion o lwerddon, a bod cyflenwadau o wledydd eraill hefyd wedi codi ers 2013, mae hyn wedi digwydd o sail isel ffug.²⁰ I roi cyd-destun i'r cynnydd mewn mewnforion, roedd llwythi, ym mis Mawrth 2014, gan yr holl brif fewnforwyr, ac eithrio lwerddon, yn is na lefelau 2012.²¹

Mae Eblex wedi rhagweld y bydd y cynnydd mewn cyflenwad o gig eidion o lwerddon yn debygol o ddisgyn mewn rhagolygon tymor hwy oherwydd cynhyrchiant is, gyda chyflenwadau yn 2015 yn debygol o fod yn is nag yn 2014.²²

Galw isel

Mae HCC wedi dangos bod data manwerthu Prydeinig o Kantar Worldpanel wedi dangos bod cig eidion a brynwyd wedi disgyn yn ystod chwarter cyntaf 2014. Roedd y cyfanswm a werthwyd 7% yn is nag ar gyfer yr un cyfnod yn 2013.²³ Bu gostyngiad bach yn y cig eidion a'r gig llo a gaiff ei fwyt a yn y blynnyddoedd diweddar yn y DU, gyda chyfanswm a werthwyd yn disgyn o 1,239,000 tunnell yn 2008 i 1,144,000 tunnell yn 2012.²⁴


Mae Tesco wedi nodi bod arferion defnyddwyr wedi newid o ganlyniad i bris cig eidion yn dyblu, i raddau, yn y pedair blynedd diwethaf, gan olygu bod defnyddwyr wedi symud tuag at ffynonellau protein rhatach.²⁵

Prisiau gât y fferm o gymharu â'r prisiau manwerthu

Mae HCC yn datgan bod pris manwerthu cig eidion wedi codi yn 2014 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2013 er gwaethaf y gostyngiad mewn prisiau wrth gât y fferm.²⁶

Ym mis Mai 2014, ar draws Prydain, cafodd sectorau'r gadwyn gyflenwi cig eidion, ac eithrio'r cynhyrchydd, h.y. y manwerthwr, y cyfanwerthwr, y cwmni cludiant a'r prosesydd tua 53% o'r pris manwerthu terfynol. Ym mis Mai 2013 roedd y ffigur tua yn 40% (Ffigur 2).²⁷

Ffigur 2: Pris y fferm o gymharu â mfanwerthu.



*mae'r pris manwerthu yn dangos canran y pris manwerthu a gafwyd gan y gadwyn gyflenwi yn hytrach na'r cynhyrchydd, sef y manwerthwr, cyfanwerthwr, cwmni cludiant a phrosesydd. Ffynhonnell: Data HCC

¹⁹ NFU *Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru a Lloegr: Beef price update*, 29 Mai 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

²⁰ NFU *Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru a Lloegr: Beef price update*, 29 Mai 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

²¹ NFU *Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru a Lloegr: Beef price update*, 29 Mai 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

²² Eblex, *The outlook for the UK beef market*, Gorffennaf 2014 [fel ar 8 Medi 2014]

²³ HCC, *High supply and dip in demand hit beef prices*, 24 Ebrill 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

²⁴ Eblex, *UK Yearbook 2013 – Cattle*, 2013 [fel ar 8 Medi 2014]

²⁵ Farmers Guardian, *Retailers and processors accused of beef 'profiteering'*, 16 Mai 2014 [fel ar 4 Medi 2014]

²⁶ HCC, *High supply and dip in demand hit beef prices*, 24 Ebrill 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

²⁷ Data gan HCC

Strategaethau Iliniaru posibl

Mae nifer o awgrymiadau wedi cael eu cyflwyno i ddatrys y broblem o brisiau cig eidion yn disgyn wrth gât y fferm.

HCC

Canfyddiadau cyntaf adolygiad HCC yw:²⁸:

- Cynyddu ymyrraeth i wella tegwch rhwng amrywiol rannau'r diwydiant - ffermwyr, proseswyr a manwerthwyr;
- Archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio Cronfeydd Datblygu Gwledig yn y dyfodol i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i helpu i gynnal niferoedd y buchod sugno;
- Datblygu camau gweithredu wedi'u contractio a'u cydgysylltu rhwng cynhyrchwyr a manwerthwyr i fodloni gofynion cwsmeriaid;
- Sicrhau cystadleuaeth iach rhwng cadwyni cyflenwi cyflawn, yn hytrach na rhwng camau amrywiol o'r un gadwyn gyflenwi;
- Sicrhau'r pris gorau am y stoc orau o gig eidion buchod sugno gyda gwell defnydd o systemau sy'n gostwng costau cynhyrchu yn sylwedol;
- Datblygu cadwyni cyflenwi o gig eidion sy'n ymateb i anghenion y farchnad.

Llywodraeth Cymru

Wrth ymateb i gwestiynau llafar ar 4 Mehefin yngylch pa rôl y gallai Llywodraeth Cymru ei chwarae yn y tymor byr i wella sefyllfa'r prisiau is wrth gât y fferm, dywedodd Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar y pryd:

... y ffordd ymlaen ar gyfer cig eidion-ac ar gyfer sectorau eraill-yw buddsoddi mewn cynhyrchiant effeithlon ac yna buddsoddi mewn marchnata. Rwy'n hyderus yngylch yr hyn y mae Hybu Cig Cymru yn ei wneud a'r gwaith y mae wedi'i roi ar y gweill dros yr ychydig wythnosau diwethaf. (...) byddwn yn awyddus iawn i barhau â'r drafodaeth ynglŷn â sut y gallwn ddefnyddio'r cynllun datblygu gwledig i fuddsoddi yn y sector yn ei gyfanrwydd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi gyfan.²⁹

Tynnodd y Gweinidog ar y pryd sylw at hirhoedledd y mater o brisiau cig eidion yn disgyn:

Rydym wedi gweld dirywiad dros y degawd diwethaf yn y sector cig eidion, felly, er bod y mater o brisiau presennol yn gatalydd i'r trafodaethau rydym yn eu cael ar hyn o bryd, rydym yn gwneud camgymeriad os ydym yn meddwl mai problem dros dro yw hon, a phroblem y gallwn ei datrys yn ystod y misoedd nesaf.³⁰

Roedd y Gweinidog ar y pryd eisoes wedi argymhell buddsoddi £1.2 miliwn yn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf yn HCC gyda'r nod o ddatblygu allforion cig coch Cymru ymhellach. Mewn datganiad ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog:

²⁸ HCC, *Beef review interim findings to spark debate at Royal Welsh Show*, 21 Gorffennaf 2014 [fel ar 3 Medi 2014]

²⁹ Cynlliad Cenedlaethol Cymru, *OAQ(4)0164(NRF)* Russell George i Alun Davies (Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), Y Cofnod, 4 Mehefin 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

³⁰ Cynlliad Cenedlaethol Cymru, *OAQ(4)0164(NRF)* Russell George i Alun Davies (Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), Y Cofnod, 4 Mehefin 2014 [fel ar 22 Awst 2014]



Gallai datblygu rhaglen allforio bresennol Hybu Cig Cymru gynyddu allforion cig coch Cymru £37.5 miliwn ymhellach dros dair blynedd. Mae cynyddu'r galw o wledydd tramor yn golygu prisiau gwell i ffermwyr a phroseswyr yng Nghymru (...)

Mae Hybu Cig Cymru wrthi'n cynnal trafodaethau i geisio agor marchnadoedd newydd ar gyfer cig oen a chig eidion Cymru yn Tsieina, Rwsia a'r Unol Daleithiau, ac rwy'n hyderus y bydd yr arian ychwanegol hwn yn eu helpu i gyflawni hyn.³¹

NFU

Mae'r NFU wedi tynnu sylw at feysydd blaenorïaeth ar gyfer camau gweithredu yn y diwydiant cig eidion i wneud iawn am y ffaith bod prisiau cig eidion yn disgyn:

- Mae'n rhaid i fanwerthwyr chwarae rhan weithredol i hyrwyddo cig eidion o Brydain ar eu silffoedd;
- Mae'n rhaid i broseswyr weithio i amlinellu prisiau tymor hirach er mwyn caniatáu i gynhyrchwyr gynllunio;
- Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau mewn manyleb neu lefelau didyniadau ar gyfer gwartheg o'r graddau is gael eu cyflawnhau a'u cyflwyno'n raddol i gynhyrchwyr ac mae angen gwell cyfathrebu;
- Dylai manwerthwyr a phroseswyr weithio gyda'r NFU i ddatblygu opsiynau rheoli risg ar gyfer ffermwyr cig eidion;
- Mae'n rhaid i'r holl ddiwydiant ddod at ei gilydd i weithio i sicrhau y gall

³¹ Llywodraeth Cymru, Alun Davies, - **Buddsoddi yn Hybu Cig Cymru (HCC) er mwyn datblygu eu rhaglen allforio**, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 23 Mai 2014 [fel ar 26 Awst 2014]

defnyddwyr barhau i fwynhau cyflenwad cynaliadwy o gig eidion Prydeinig ac y gall pob rhan o'r gadwyn gyflenwi gael budd cynaliadwy o'r farchnad.³²

Ym mis Mai 2014, cyfarfu swyddogion yr NFU ym Mrwsl gyda'r Comisiwn Ewropeaidd i dynnu sylw at yr effaith y mae'r gostyngiad mewn prisiau cig eidion yn ei gael ar hyder yn sector cig eidion y DU.

Ym mis Mehefin 2014, cyfarfu arweinwyr undebau ffermwyr³³ o Gymru, Gogledd Iwerddon, Iwerddon a'r Alban â'r NFU i ymateb i ddiicter cynyddol y ffermwyr ynghylch prisiau cynyddol is wrth gât y fferm. Dywedodd Meurig Raymond, Llywydd yr NFU:

In a well-functioning market there should be sufficient margin in beef for everyone - the farmer, the processor and the retailer. For now we need to promote our product more widely, be it through the levy bodies working on export opportunities, or through retailers for what should be one of their headline products.³⁴

NFU Cymru

Mae NFU Cymru wedi tynnu sylw at y rhan y gall y Cynllun Datblygu Gwledig newydd ei chwarae o ran cefnogi buddsoddiad mewn offer, cyfleusterau a thechnolegau ar ffermydd da byw Cymru. Dywedodd Lyndon Edwards, Cadeirydd y Bwrdd Da Byw:

It is crucial that the new Wales RDP... has a budget for investment measures that is sufficient to provide the investment needed on farm to help secure the production base going forward.³⁵

³² NFU, **National Farmers' Union of England and Wales : Beef price update**, 29 Mai 2014 [fel ar 22 Awst 2014]

³³ Gan yr Irish Farmers' Association, Ulster Farmers' Union, NFU Scotland, NFU Cymru.

³⁴ Meat info.co.uk, **NFU urges industry to 'take responsibility' on beef**, 12 Mehefin 2014 [fel ar 26 Awst 2014]

³⁵ NFU Cymru, **Restore Confidence and Stability to Beef Prices**, 23 May 2014 [accessed 22 August 2014]

Undeb Amaethwyr Cymru

Mae Emry Jones, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru wedi apelio ar archfarchnadoedd i ymrwymo i gig eidion Cymru a Phrydain gyda theyrngarwch a phrisiau cynaliadwy. Mae'r Undeb hefyd yn ymgyrchu i sicrhau bod prisiau a gaiff eu talu gan gyflenwyr neu drwy gontactau uniongyrchol yn rhai sy'n meithrin hyder yn y diwydiant cig eidion.³⁶

Ym mis Mehefin, mynegodd yr Undeb bryderon yngylch y niwed y mae prisiau cig eidion isel yn ei achosi i incwm ffermydd a hyder y diwydiant gydag Aelodau Seneddol o Gymru yn San Steffan.

Uwchgynhadledd argyfwng cig eidion

Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd Defra uwchgynhadledd argyfwng cig eidion, pan gafodd ffermwyr, proseswyr cig ac archfarchnadoedd wahoddiad i drafod sut i adeiladu sector cig eidion hirdymor, cynaliadwy. Cytunodd ffermwyr a phroseswyr cig i lunio cod ymddygiad gwirfoddol ar gyfer y diwydiant cig eidion. Byddai'r cod, sy'n parhau i gael ei ddatblygu, yn ymwneud â sut y byddai telerau masnachu, manylebau lladd-dai a chosbau yn cael eu cyfleo i gynhyrchwyr cig eidion. Yn ystod yr uwchgynhadledd, cafodd y manwerthwyr eu herio gan undebau'r ffermwyr i ystyried ymgyrchoedd torri prisiau i hybu galw defnyddwyr am gig Prydeinig.

Yn dilyn yr uwchgynhadledd, dywedodd Lyndon Edwards, Cadeirydd Bwrdd Da Byw, NFU Cymru:

We must increase demand for our product and we've said to retailers that they need to actively promote PGI status Welsh Beef as well as Red Tractor-assured British beef. I'm pleased that at the Summit, retailers acknowledged the importance of clearly, unambiguously and accurately promoting British beef.³⁷

³⁶ FUW, **FUW president warns supermarkets of need to support Welsh and British beef**, 18 Mai 2014 [fel ar 1 Medi 2014]

³⁷ NFU Cymru, **Beef Summit Highlights Industry Challenges**, 2 Gorffennaf 2014 [fel ar 8 Medi 2014]

Gweithgareddau manwerthwyr

Ym mis Gorffennaf 2014 cododd Waitrose y pris isaf y bydd yn ei dalu am wartheg eidion Prydeinig i £3.45/kg (cynnydd o £0.05/kg) gan warantu'r pris tan 1 Hydref. Dywedodd Heather Jenkins, Cyfarwyddwr Amaeth Waitrose:

The farmers who supply us are the lynchpin of our fresh food business and we believe it's vital to have long term relationships with them founded on fairness and trust... We recognise that the beef industry is facing challenging times in the current market and we want to send positive messages to our producers.³⁸

Yn dilyn yr uwchgynhadledd pris cig eidion ym mis Gorffennaf 2014, trefnodd Tesco ymgyrch hysbysebu mewn papurau newyddion cenedlaethol³⁹ yn cyhoeddi ei fod yn gostwng pris manwerthu crwmp i £8.50/kg a syrlwyn i £10/kg am gig eidion Prydeinig a Gwyddelig penodol. Dywedodd llefarydd ar ran Tesco:

... we must work together to grow both production and demand, so that we can provide an affordable offer for customers while also ensuring a sustainable future for the industry. When we get it right, we see great results; for example our Finest range, which is 100 per cent British, has seen a significant growth in volume since this time last year.⁴⁰

Wrth ymateb i'r uwchgynhadledd, dywedodd Sainsbury y byddai'n parhau ei ymrwymiad i gig eidion Prydeinig drwy weithio gyda'r 600 o ffermwyr yn ei grŵp datblygu cig eidion⁴¹ i ddyblu gwerthiant

³⁸ Farmers Weekly, **Waitrose sets minimum farmgate beef price until October**, 4 Gorffennaf 2014 [fel ar 4 Medi 2014]

³⁹ Er enghraift y Daily Express (4 Gorffennaf 2014)

⁴⁰ The Yorkshire Post, **Supermarkets urged to make it easier for us to buy British beef**, 21 Mai 2014 [fel ar 10 Medi 2014]

⁴¹ J Sainsbury plc, **Sainsbury's help farmers go green at the Bath and West Agricultural Show**, 1 Mehefin 2011 [fel ar 24 Medi 2014]



bwyd Prydeinig erbyn 2020 a'i fod yn gweithio fwy fwy gyda thyfwyr, ffermwyr a chyflenwyr Prydeinig i gyflawni hyn.⁴²

Dyweddodd Andrew Loftus, rheolwr amaeth Morrison, fod yr archfarchnad yn cymryd ergyd i'w helw drwy brynu cig eidion Prydeinig yn hytrach na chig eidion o lwerddon.⁴³

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Brisiau Cig Eidion o Gymru, cysylltwch â **Katy Orford** (Katy.Orford@Cymru.gov.uk), Y Gwasanaeth Ymchwil.

Mae ein **hamrywiaeth lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: cynulliad.cymru.org/ymchwil

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd:
@SeneddYmchwil

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid anfon y rhain i: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn neges e-bost i

Research.Service@cymru.gov.uk

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn ag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

Rhif yr ymholiad: 14/2243

⁴² J Sainsbury plc, **20x20 Sustainability Plan- 2013** [fel ar 10 Medi 2014]

⁴³ Farmers' Weekly, **Three of big four supermarkets refuse to stock more British beef**, 22 Mai 2014 [fel ar 10 Medi 2014]



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru National
Assembly for
Wales